# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Y ddyletswydd gyffredinol*

### 2 Dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella

(1) Rhaid i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau.

(2) Wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1), rhaid i awdurdod roi sylw penodol i'r angen am wella'r modd y mae'n arfer ei swyddogaethau o ran—

(a) effeithiolrwydd strategol;
(b) ansawdd gwasanaethau;
(c) argaeledd gwasanaethau;
(d) tegwch;
(e) cynaliadwyedd;
(f) effeithlonrwydd; ac
(g) arloesi.

(3) I gael ystyron paragraffau (a) i (g) o is-adran (2), gweler adran 4.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(3)**
**I2** A. 2(1) mewn grym ar 1.4.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), **Atod. 2**
**I3** A. 2(2)(3) mewn grym ar 17.7.2009 gan O.S. 2009/1796, **ergl. 2(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2010.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Croes Bennawd: Y ddyletswydd gyffredinol yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.